OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2013 Rhif 693 (Cy. 85)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Glanconwy - Morfa Conwy, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Terfyn Cyflymder 70 mya Dros Dro) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *20 Mawrth 2013* |
| *Yn dod i rym* | *26 Mawrth 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Dehongli a Chychwyn

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 26 Mawrth 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Glanconwy – Morfa Conwy, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Terfyn Cyflymder 70 mya Dros Dro) 2013.

### Terfyn Cyflymder

**2.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 3, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 70 milltir yr awr ar y darn hwnnw o'r gefnffordd rhwng Glanconwy a Morfa Conwy ym Mwrdeistref Sirol Conwy sy'n ymestyn o bwynt 80 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cylchfan Cyfnewidfa Glanconwy hyd at bwynt 200 o fetrau i'r gorllewin o linell ganol y bont i Forfa Conwy yng Nghyfnewidfa Morfa Conwy.

**Ataliadau**

**3.** Atelir y terfyn cyflymder a bennir yn erthygl 2 os bydd terfyn is yn gymwys yn rhinwedd Gorchymyn traffig dros dro ar wahân.

**4.** Mae darpariaethau erthygl 13 o Reoliadau Ffordd Arbennig (Glanconwy - Morfa Conwy) 1990**(3)** drwy hyn wedi eu hatal.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 20 Mawrth 2013

**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672 erthygl 2 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 1990/1586